

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Medi 2015, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap Rhobert, D Morgan, D Pritchard, D Roberts, W Vaughan, A Williams, PCSO M Hughes	
YMDDIHEURIADAU: Cyng M Lees, W Williams, C McGregor, A Wyn, O Davies	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D Roberts
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21 Gorffennaf 2015. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D ap Rhobert yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Gor-yrru Llangwyllog - Mae'r clerc wedi derbyn gwybodaeth yr adroddiad gor-yrru gan Gan Bwyll (trwy PCSO M Hughes). Yn anffodus, nid yw yr gwybodaeth yn glir iawn. Bydd PCSO Hughes yn trefnu cael mwy o wybodaeth
4.2	Gofeb Talwrn - Mae'r clerc wedi derbyn pris gan H O Davies, Bangor am gwneud y gwaith ar y gofeb - £1500. Gofynwyd i'r clerc cael prisiau eraill.
4.3	Wal Lon y Capel - mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
4.4	Arwydd - Neuadd - mae'r Clerc yn paratoi cais am yr arwydd
4.5	Lon yr Ysgol - Mae y Cyngor Sir yn trefnu i'r gwaith cael ei wneud
4.6	Tyfiant - Ceint - Gwaith yn gyflawn
4.7	Palmant Talwrn - Ymateb y Cyngor Sir " Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau wedi cael i yrru i archwiliwr traffic i weld beth rydan wedi cynllunio yn ddiogel. Unwaith bydd hyn wedi cael eu cytuno, mi fydd y cynlluniau a'r gwaith wedi rhyddhau i'r gweithiwr. Yn ogystal, fydd yr cynlluniau y gwaith ar gael i weld"
4.8	Maes parcio (gyferbyn ar hên siop, Talwrn) mae'r clerc wedi derbyn pris a mae'r gwaith wedi cael ei wneud
4.9	Fibre Optic Broadband mae'r clerc wedi cysylltu a BT - mae'r mater yn cael ei adolygu
4.10	Treysgawen, Capel Coch - darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud bod archeb waith wedi anfon at yr Contractwr Cynnal Ffyrdd i adnewyddu'r llinell
	Llofnod.....Cadeirydd 20.10.15

5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C146D/VAR cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (01) o caniatad cynllunio rhif 23C146B (gosod caban adwerthu dros dro) ac amod (03) caniatad cynllunio rhif 23C146C (addasu ac ehangu mynedfa siop) er mwyn ymestyn dyddiad gwared yr cabin yn Siop Gymunedol Bodeilio - dim sylwadau
5.2	23C315C/SCR cais barn sgrinio i ddymchwel annedd presennol ynghyd a chodi annedd newydd yn ei le, codi modurdy a gosod paced trin carthffosiaeth yn Hafan, Mynydd Bodafon - dim sylwadau
5.3	23C253A cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Bodwena, Cefniwrch - dim sylwadau
5.4	23C160L/SCR cais am farn sgrinio i gydgordio holl o weithgareddau chwarelu a gwastraff ynghyd a diwygio'r lefelau tir yn gysylltiedig a'r cynllun adfer gorffenedigar safle yn Rhuddlan Bach Quarry, Brynteg - dim sylwadau
5.5	23C253B cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ynghyd a chreu mynedfa a trac newydd yn Bodwena, Cefniwrch - dim sylwadau
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	National Grid - Newyddion i'r Gymuned (gwybodaeth yn unig)
6.2	National Grid - cofnodion 28.05.15 (gwybodaeth yn unig)
	Deiseb Peilonau - Gofynwyd i'r clerc cysylltu a Cyngor Cymuned Penmynydd i ddweud bydd yr aelodau ddim yn cefnogi y deiseb oherwydd bod Cyngor Llanddyfnan ddim eisio peilonau i gychwyn a dim eisio Wylfa B
7	MATERION ARIANNOL
7.1	Penderfyniwyd talu: G Hughes torri gwair £150.00 (gweler 4.8), Hacker Young £210.00, G Owen costau y clerc £43.22
8	MATERION ERAILL
	Llofnod.....Cadeirydd 20.10.15